

**Hosbis Plant Ty Hafan
Heol Hayes
Sili
CF64 5XX**

Adroddiad Arolygu 2011-2012

Dyddiad yr arolygiad: 19 & 20 Mawrth 2012

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Heol y Fan
CAERFFILI
CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 029 20 928850
Ebost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 029 20 928877
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

	Rhif y Dudalen
1. Cyflwyniad a Chefndir	1
2. Ein Canfyddiadau	3
3. Casgliad	12
4. Gofynion, argymhellion a'r camau nesaf	13

1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) sy'n rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, ac mae'n cyflawni'r swyddogaeth honno ar ran Gweinidogion Cymru a ddynodwyd, trwy awdurdod Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fel yr awdurdod cofrestru ar gyfer Cymru.

1.2 Rhaid i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol¹ fod wedi eu cofrestru ag AGIC cyn y cânt ddarparu gwasanaethau yng Nghymru, ac er mwyn cofrestru, mae'n rhaid iddynt ddangos eu bod yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae mwy o wybodaeth am y Safonau a'r rheoliadau cysylltiedig ar gael yn www.agic.org.uk.

1.3 Mae ein hadolygiad o hosbisau plant yn canolbwyntio ar nifer o feysydd allweddol er mwyn sicrhau bod yr unigolion hynny sy'n defnyddio gwasanaethau o'r fath yn:

- Ddiogel;
- derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol;
- derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi eu hyfforddi'n briodol;
- cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth;
- cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol ag y bo modd;
- cael gwneud dewisiadau, ac yn cael eu hannog i wneud hynny;
- cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial;
- cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau.

1.4 Yn rhan o'n proses arolygu, rydym yn cynnal trafodaethau cynhwysfawr, yn rheolaidd, gyda chleifion ac aelodau staff ac yn arsylwi'n ofalus yr ymadweithio rhwng cleifion a staff. Fe allem hefyd gyfarfod ag aelodau o'r teulu neu eiriolwyr cleifion/defnyddwyr gwasanaeth i ofyn eu barn am y gofal a ddarperir. Yn ogystal ag

¹ Gofal iechyd annibynnol – gwasanaethau nad ydynt yn cael eu darparu gan y gwasanaeth iechyd.

adolygu pa mor briodol yw'r amgylchedd ffisegol, rydym hefyd yn gwerthuso safon amrywiaeth o ddogfennau gan gynnwys cynlluniau gofal cleifion, polisïau a gweithdrefnau, cynlluniau hyfforddiant a hyfforddiant sefydlu'r staff, a chofnodion cwynion. Mae AGIC yn defnyddio adolygwyr amrywiol sydd â phrofiad eang o ofal lliniarol a gofal pediatrig.

Tŷ Hafan

1.5 Mae Tŷ Hafan wedi ei gofrestru ar hyn o bryd i ddarparu triniaeth a gofal nyrsio i ddeg (10) o blant/pobl ifanc dan bedair ar bymtheng (19) mlwydd oed. Mae Hosbis Plant Tŷ Hafan yn gyfleuster sydd wedi ei adeiladu i'w ddiben, ac mae wedi ei leoli mewn gerddi deniadol sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Roedd gwaith adeiladu i'w weld yn y gerddi ar ddiwrnod ein hymweliad. Mae digon o le parcio ar gael ar gyfer cleifion, teuluoedd, staff ac ymwelwyr, ac mae'r adeilad wedi ei ddiogelu ac eir i mewn iddo trwy ddefnyddio system mynediad diogel.

1.6 Cynhaliodd AGIC ymweliadau lle rhoddwyd rhybudd â Thŷ Hafan ar 19 a 20 Mawrth 2012, a chynhaliwyd ymweliad hefyd â'r pencadlys ar gyrion Caerdydd er mwyn archwilio nifer o ffeiliau staff a chofnodion hyfforddiant sefydlu/hyfforddiant arall. Roedd y rheolwr cofrestredig (sydd â'r teitl Cyfarwyddwr Gofal), a'r Cyfarwyddwyr Gofal Cynorthwyol, ar gael trwy gydol yr ymweliad arolygu.

1.7 Tŷ Hafan yw'r darparwr cofrestredig², ac mae'r ysbyty wedi ei leoli o fewn ychydig o filltiroedd i Gaerdydd.

1.8 Mae canfyddiadau'r ymweliadau hynny wedi eu nodi yn Adran 2 yr adroddiad hwn. Mae meysydd o gryfder, yn ogystal â meysydd i'w gwella, gan gynnwys gofynion ac argymhellion gweithredu, wedi eu nodi.

² Mae darparwr cofrestredig yn golygu unigolyn neu gwmni sydd wedi ei gofrestru dan ran II o'r Ddeddf fel yr unigolyn sy'n rhedeg y sefydliad neu'r asiantaeth.

2. Ein Canfyddiadau

2.1 Mae Cylch Gorchwyl yr adolygiad hwn wedi'i drefnu ar sail cyfres o gwestiynau sylfaenol yr ydym ni'n teimlo y byddai cleifion, eu perthnasau a chomisiynwyr gwasanaethau³ yn dymuno i ni eu gofyn. Er mwyn eu gwneud yn eglur ac yn haws cyfeirio atynt, rydym wedi nodi ein canfyddiadau o dan bennawd pob cwestiwn. Rydym yn cyflwyno ein casgliadau a'r camau nesaf yn Adran 3 yr adroddiad hwn, ac mae Adran 4 yn nodi unrhyw dor-rheoliadau ac argymhellion arfer da o'n canfyddiadau a nodir isod.

‘A oedd y rhai a oedd yn defnyddio'r gwasanaethau ar adeg ein hymweliad yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol?’

2.2 Roedd amrywiaeth o gyfleusterau ar gael, gan gynnwys ystafell gyfrifiaduron, therapi cerdd ac ystafell “ffau'r glasoed”. Roedd gwaith celf a chrefft a wnaed gan y plant wedi ei arddangos yn y sefydliad drwyddo draw. Roedd cynllun y lleoliad wedi ei drefnu'n bwrpasol i ganiatáu mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn a sicrhau y gellir mynd i mewn i'r holl ystafelloedd gwely a chyfleusterau yn rhwydd. Roedd gwaith addurno a naws y llety yn cyd-fynd â diben ac athroniaeth yr hosbis gan ei fod yn darparu amgylchedd hyfryd a chartrefol ond yn cadw nodweddion clinigol hanfodol ar yr un pryd. Roedd cyfleusterau llety rhieni, addysg a chynadledda rhagorol ar gael. Roedd awyrgylch cyfeillgar a chartrefol yn yr ystafell fwyta, ac roedd amrywiaeth lawn o fwydlenni, gan gynnwys dietau arbennig, yn cael eu darparu.

2.3 Fodd bynnag, nodwyd y materion canlynol ynglŷn â'r amgylchedd, a rhoddwyd adborth i'r tîm rheoli ar ail ddiwrnod yr arolygiad:

Ystafell Weithgareddau - roedd cortyn llenni yn rhydd ac felly'n achosi risg, ac mae'n rhaid ei osod yn sownd yn y wal neu ei symud oddi yno. Yn ogystal, mae'n rhaid clymu holl geblau rhydd yr offer trydanol yn sownd er mwyn lleihau'r risg o faglu a chwympo.

³ Comisiynwyr gwasanaethau – y sefydliad sy'n prynu gwasanaethau a thriniaeth gan y darparwr cofrestredig.

Ystafell fwyta/man teulu - roedd angen gosod cebl y taflunydd yn sownd yn y wal gan ei fod yn rhydd. Roedd angen gostwng y ffitiadau wal ar gyfer y teclyn codi ar drac oherwydd bod rhai aelodau o staff yn ei chael hi'n anodd cyrraedd ei safle presennol, gan achosi anawsterau o ran codi a chario.

Pob un o'r mannau sy'n cynnwys teclynnau codi sefydlog a symudol - roedd risgiau o ran rheoli heintiau a hylendid yn deillio o'r arfer o lapio dolenni'r teclyn codi gyda deunydd lapio mandyllog a'i ddiogelu â thâp gludiog; mae hyn hefyd yn ymddangos yn hyll iawn. Defnyddir y deunydd lapio mandyllog hwn fel arfer i leihau difrod barrug i beipiau dŵr cartrefi ac nid yw wedi ei fwriadu ar gyfer diogelu dolenni teclyn codi. Mae'n rhaid gosod y deunydd diogelu a'r darn mecanyddol diogelu cywir.

Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) – roedd cwpwrdd heb ei gloi yn y coridor ystafelloedd gwely a oedd yn cynnwys golchdrwythau, peraroglyddion ystafell, a hylifau glanhau. Mae'n rhaid cloi hwn pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Hylendid Dwylo – Tystiolaeth dda o weithdrefnau hylendid dwylo a sylw i iechyd a diogelwch y cleifion, teuluoedd, staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr.

Hysbysfyrddau mewn mannau cyhoeddus - roedd pinnau'n cael eu defnyddio i roi pethau'n sownd mewn hysbysfyrddau. Dylid newid y rhain am rai nad ydynt yn finiog.

Cynnal a chadw cyffredinol a glanhau - nid oedd plwg yn sinc yr ystafell ymolchi ac roedd gwarchodydd drws yr ystafell ymolchi newydd (2) wedi torri ond roedd un arall wedi ei archebu yn ei le. Roedd angen ail baentio nifer o waliau. Gellid gwneud yr Ystafell Driniaeth yn fwy taclus a glân yn gyffredinol, a chynghorwyd y staff i beidio â chadw eitemau ar ben cypyrddau wal. Dylid rhoi labeli ar eitemau sydd wedi eu gadael ar ôl heb geisio gan deuluoedd, a'u dychwelwyd cyn gynted â phosibl.

Glanhaodd y staff y cludwyr silindrau ocsigen llychlyd ar unwaith yn dilyn cyngor gan y tîm adolygu.

Arwyddion cyffredinol - mae nifer o arwyddion gwybodaeth wedi eu harddangos ond nid yw'r ffont yn briodol ar gyfer y rhai hynny sydd â nam ar y synhwyrâu neu anawsterau cyfathrebu. Mae angen i'r hosbis ystyried y ddeddfwriaeth a'r polisi dwyieithrwydd yng Nghymru. Dylai cyfarwyddiadau a chanllawiau a arddangosir i'r staff gyfeirio atynt gynnwys enwau'r awduron, cyfeiriadau pan fo'n briodol, a dyddiadau adolygu, a dylid eu lamineiddio neu eu cotio'n arbennig i gydymffurfio â rheoliadau rheoli heintiau.

Cleifion a gwasanaethau newyddenedigol - oherwydd bod yr hosbis yn canolbwyntio mwy ar ofal babanod newydd-anedig, a'r tebygolrwydd uchel fod

mamau llaetha yn lletya yn yr hosbis, dylid ystyried cael oergell benodol ar gyfer cadw llaeth y fron.

‘A oedd y rhai a oedd yn defnyddio’r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi eu hyfforddi’n briodol?’

Staffio

2.4 Ar adeg ein hymweliad, roedd y niferoedd staffio yn briodol ar gyfer y lefelau dibyniaeth a nifer y cleifion a oedd yn derbyn gofal. Roedd amrywiaeth o driniaethau a gweithgareddau therapiwtig yn cael eu hwyluso.

2.5 Gwelwyd ymarfer rhagorol o ran y staff chwarae, yn enwedig o ran gweithgareddau a oedd ar gael i blant â nam ar eu synhwyrâu ac ar gyfer brodyr a chwiorydd. Dylid rhoi ystyriaeth i’r arweinydd chwarae ddatblygu cysylltiadau ffurfiol â’r staff chwarae ysbyty aciwt. Byddai hyn yn darparu cefnogaeth gan gymheiriaid a sicrhau bod diweddariadau o ran addysg a gwasanaethau ar gael i staff chwarae yr hosbis.

2.6 O ran cyfranogiad meddygol, mae ymgynghorydd gofal lliniarol a’i gofrestrydd/chofrestrydd yn ymweld â’r hosbis bob wythnos, ac maent ar alwad yn ystod yr wythnos. Mae Meddyg Teulu sy’n astudio am ddiploma mewn meddyginiaeth liniarol yn ymweld â’r ysbyty bob dydd. Os oes angen cymorth meddygol y tu allan i oriau gwaith arferol, mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi ei sefydlu â gwasanaeth y tu allan i oriau arferol y Meddyg Teulu, ac mae pediatregydd sydd wedi ei leoli yn Ysbyty Prifysgol Cymru ar gael i’r Meddyg Teulu sy’n ymweld â Thŷ Hafan dan y trefniadau hyn.

2.7 Yn ddieithriad, gwelwyd bod gan y staff berthynas dda â’r cleifion, ac roedd ganddynt wybodaeth dda am eu hanghenion a’u dewisiadau. Roedd y staff a gyfwelwyd yn wybodus iawn yn gyffredinol am y grŵp cleifion yr oeddent yn darparu gofal iddynt, ac roeddent yn ymwybodol o’u swyddogaethau a’u cyfrifoldebau.

Hyfforddiant Staff

2.8 Cyfwelwyd ag wyth aelod o staff yn ystod ein hymweliadau, a dywedodd y staff wrthym fod amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant yn cael eu cynnig iddynt. Roedd y staff yn frwdfrydig iawn, yn ymroddedig i'w dyletswyddau, ac roeddent yn awyddus i wella'r gwasanaethau a gynigir ac a ddarperir. Roedd y staff yn ymwybodol o faterion Gofal ac Amddiffyn, Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a ble i ddod o hyd i bolisiau a chanllawiau perthnasol. Roedd y staff hefyd yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth i staff a oedd ar gael, yn enwedig yn dilyn ymyraethau clinigol a phrofedigaethau ingol .

2.9 Ers ein hymweliad diwethaf ym mis Mawrth 2010, mae tîm yr hosbis wedi ehangu a datblygu eu gwybodaeth, sgiliau clinigol a phrofiad o ran gofal newyddenedigol, lliniarol a diwedd oes. Mae gwasanaeth ar gael bellach ar gyfer babanod sydd angen gofal hosbis, sy'n cynnwys arbenigedd mewn trosglwyddo o unedau babanod newydd-anedig lleol a chyfagos, tynnu tiwbiau, gofal parhaus hyd farwolaeth a chefnogaeth yn dilyn profedigaeth ar gyfer y teulu. Mae'n rhaid canmol yr agwedd arloesol hon ar wasanaethau'r hosbis.

2.10 Dangoswyd llawer o bethau newydd o ran chwarae a hamdden, ac roedd sylw arbennig yn cael ei roi i anghenion y glasoed a thadau. Derbyniwyd bod angen datblygu mwy ar y gwaith a wneir gyda thadau.

2.11 Datblygir gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd trwy drafodaethau ac adolygiadau amlddisgyblaethol. Mae dwy Nyrs Gofal Lliniarol yn cymryd camau pendant i gysylltu â thimau Nyrsio Plant Cymunedol, Nyrsio Ysgolion, a Nyrsio Acíwt er mwyn codi ymwybyddiaeth o anghenion Gofal Lliniarol Plant a'r gwasanaeth a gynigir gan Dŷ Hafan.

2.12 Cynhelir wythnosau hyfforddiant penodedig bob blwyddyn er mwyn sicrhau y darperir hyfforddiant statudol a gorfodol. Cynhelir adolygiadau datblygiad personol unigol sy'n canolbwyntio ar anghenion datblygu, cefnogaeth a hyfforddiant pob aelod o staff.

2.13 Roedd y staff wedi dilyn amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi, gan gynnwys Gofal am y newydd-anedig mewn lleoliad gofal lliniarol, llywodraethu clinigol ac archwilio clinigol, swyddog tân, diffibrilio, rhywioldeb ac anabledd, trin bwyd a hylendid, asesu angen a darparu gofal, cymorth cyntaf a phrofedigaeth. Roedd y ffeiliau staff unigol a adolygwyd yn cynnwys adolygiad o werthusiad diweddar a oedd yn nodi anghenion hyfforddiant a chynllun datblygu.

2.14 Nid yw'r staff yn yr hosbis yn rhoi chwistrelliadau mewnwythiennol, a gwneir hyn gan nyrsys plant cymunedol pan fo'i angen yn y gymuned. Roedd Tŷ Hafan wrthi'n ystyried hyfforddiant a datblygiad pellach ar gyfer y staff er mwyn eu galluogi i gynnal rhai triniaethau cymhleth.

2.15 Nid oedd unrhyw nyrsys yn rhagnodi yn yr hosbis, a dywedwyd wrth AGIC fod Tŷ Hafan yn ymchwilio i gyrsiau addas. Byddai cael nyrsys sy'n rhagnodi yn yr hosbis yn amlwg yn gwella'r gwasanaeth sydd ar gael.

2.16 Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn dweud eu bod yn teimlo bod y rheolwyr a'u cydweithwyr yn eu gwerthfawrogi ac yn eu cefnogi.

Cofnodion Staff

2.17 Adolygwyd sampl o gofnodion y staff, ac roedd yr holl gofnodion a adolygwyd yn cynnwys ffurflenni cais, tystlythyrau, archwiliadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol, archwiliadau/datganiadau meddygol, contract cyflogi, tystiolaeth o gymwysterau a gyflawnwyd ac o gofrestrriad priodol â chorff proffesiynol.

Polisiâu a Gweithdrefnau

2.18 Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar gael, ac roedd tystiolaeth fod y staff yn ymwybodol o'r rhain ac yn gwybod ble i ddod o hyd i'r polisiâu pe byddai angen cyfeirio atynt.

2.19 Roedd nifer o bolisïau wedi eu hadolygu er mwyn bodloni anghenion gofal unigol a chyfarwyddbau cenedlaethol o ran Gofal Lliniarol a Diwedd Oes Plant, a chaniatâd. Roedd protocolau wedi eu sefydlu ar gyfer galluogi rhannu gwybodaeth am y cynlluniau Diwedd Oes a throsglwyddo babanod newydd-anedig o Fyrddau Iechyd i Dŷ Hafan.

‘A oedd y rhai a oedd yn defnyddio’r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth eu hunain, eu cynorthwyo i fod mor annibynnol ag y bo modd, ac yn cael gwneud dewisiadau a’u hannog i wneud hynny?’

Cofnodion Gofal

2.20 Adolygwyd dogfennau gofal, a chanfuwyd llawer iawn o wybodaeth. Roedd y staff yn cydnabod bod angen adolygu’r dogfennau eang hyn er mwyn arbed dyblygu a symleiddio dogfennau’r broses lawn o dderbyn hyd at ryddhau. Dywedwyd wrthym fod dogfennau newydd yn y broses o gael eu datblygu a’u rhoi ar waith. Gwelwyd rhai enghreifftiau da o adegau pryd yr oedd nifer o asiantaethau, rhieni a phlant wedi cymryd rhan yn y broses o gynllunio gofal. Roedd y cynlluniau gofal yn adlewyrchu anghenion y cleifion ac roeddent yn cael eu gwerthuso a’u hadolygu yn unol ag amserlenni a nodwyd.

2.21 Cynhelir amrywiaeth o asesiadau risg unigol, ac roedd yn amlwg fod y rhain yn cael eu defnyddio fel sail i benderfyniadau ynglŷn ag agweddau ar ofal y cleifion. Roedd yr asesiadau risg a archwiliwyd yn canolbwyntio ar godi a chario, manau pwyso a’r defnydd o reiliau gwely. Fodd bynnag, ni welwyd unrhyw asesiadau risg ar gyfer ymddygiad heriol/anodd posibl, ac mae’n bwysig fod dulliau asesu cadarn ar gael ar gyfer sicrhau bod strategaeth eglur wedi ei sefydlu i ymdrin ag unrhyw ymddygiad heriol a arddangosir gan gleifion. Fodd bynnag, cydnabyddir na allai fod angen yr asesiadau hyn ar y cleifion a oedd yn derbyn llety ar adeg yr arolygiad. Roedd fframwaith risg cynhwysfawr wedi ei lunio, ac mae’n hanfodol bwysig fod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn y broses archwilio er mwyn sicrhau bod y

fframweithiau a ddefnyddir yn effeithiol ar gyfer ymdrin â phob agwedd ar risg, gan gynnwys ymddygiad heriol.

2.22 Mae'r penodiad o ddwy nyrs Gofal Lliniarol yn dystiolaeth o strategaeth ragweithiol ar gyfer gwella'r gwasanaeth a'r berthynas waith â phartneriaid gofal ac asiantaethau eraill. Mae cysylltiadau wedi eu datblygu rhwng Tŷ Hafan a nifer o Hosbisau Oedolion ynglŷn â threfniadau trosglwyddo ar gyfer oedolion deunaw oed a hŷn.

'A oedd y rhai a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial?'

Gweithgareddau

2.23 Mae Tŷ Hafan yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau/therapiau, gan gynnwys sgiliau cyfrifiadurol, therapi cerdd, therapi cyflenwol, amrywiaeth o weithgareddau chwarae, sesiynau coginio, celf a chrefft a gweithgareddau cymunedol.

2.24 Roedd ystod eang o gyfleusterau ar gael yn yr ysbyty, gan gynnwys ystafell gyfrifiaduron, ystafell therapi cerdd, "ffau'r glasoed", ystafell addysg, ystafell weithgareddau a man teulu. Roedd y plant a'u perthnasau hefyd yn cael defnyddio gardd fawr a hyfryd iawn.

2.25 Roedd amrywiaeth o weithgareddau wedi eu nodi ar gyfer pob claf er mwyn bodloni eu hanghenion unigol, ac roedd hyn yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â'r hosbis a theulu a ffrindiau.

Arlwyo

2.26 O ran diet a maeth, roedd dewis o fwydlen ar gael i'r cleifion, yn ogystal â ffrwythau ffres, sudd, diodydd poeth a dŵr. Roedd y bwyd a weiniwyd wedi ei

gyflwyno'n dda ac yn ymddangos yn flasus. Roedd gwirfoddolwyr yn cynorthwyo'r staff arlwyio i baratoi a choginio'r prydau bwyd.

'A oedd y rhai a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael defnyddio gwasanaethau eiriolwyr annibynnol ac a oeddynt yn cael eu cynorthwyo i fynegi pryderon a chwynion?'

Eiriolaeth, Pryderon a Chwynion

2.27 Roedd polisi a gweithdrefn gwyno wedi eu sefydlu. Roedd y weithdrefn gwyno yn nodi'r amserlenni ar gyfer yr amserlen y gallai achwynwyr ddisgwyl cael ymateb llawn i'w cwyn. Roedd gwybodaeth ar gael a oedd yn rhoi cyngor i gleifion, ymwelwyr ac eraill ar sut i wneud cwyn. Roedd polisi chwythu'r chwiban hefyd wedi ei sefydlu.

2.28 O ran eiriolaeth, nid oeddem yn gallu cadarnhau i ba raddau yr oedd eiriolwyr annibynnol yn cymryd rhan. O ganlyniad, mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig gyflwyno gwybodaeth am y maes hwn yn unol â'r amserlenni a nodir ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

'A oedd y rhai a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau, ac a oedd cefnogaeth effeithiol ar gael ar gyfer y teulu?'

Cymorth i Gleifion ac Aelodau o'r Teulu

2.29 Mae tîm penodol ar gael i roi cymorth i deuluoedd, a gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y tîm cyfan wedi rhoi cefnogaeth gadarn a chynhwysfawr i'r teulu trwy gydol adeg rhoi gofal lliniarol a diwedd oes i'r plentyn ac yn dilyn profedigaeth.

2.30 Mae'r tîm rheoli wedi trefnu contractau anrhydeddus i'w staff ddarparu gofal unigol i blant mewn lleoliadau aciwt pan fo'n briodol, ac er lles gorau'r plentyn. Roedd hyn o fudd arbennig pan oedd gan gleifion anghenion cymhleth, er mwyn

sicrhau bod gan amrywiaeth o aelodau staff o wahanol sefydliadau wybodaeth am anghenion gofal cymhleth a'r profiad o ymdrin â hwy.

2.31 Roedd cyfweiliadau ag aelodau o'r teulu yn amlygu cymaint yr oeddent yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth, a sut yr oedd y gwasanaethau seibiant a chlinigol a oedd ar gael wedi sicrhau y gallent barhau â'u swyddogaeth ofalu ar ôl dadflino a theimlo'n gryfach. Roedd peth pryder na fyddai'r gwasanaeth ar gael i blant sy'n cyrraedd deunaw oed ac na fyddai trosglwyddiad i'r hosbis oedolion yn addas i oedran oherwydd nad yw oedran cronolegol y plant sy'n mynychu'r hosbis bob amser yr un fath â'u hoedran gwybyddol a'u cam emosiynol. Mae Tŷ Hafan wedi datblygu cysylltiadau â hosbisau oedolion er mwyn gallu hwyluso'r broses drosglwyddo, gan roi pwyslais arbennig ar sicrhau dilyniant gofal ar gyfer y cleifion.

3. Casgliad

3.1 Roedd ein hymweliadau a gynhaliwyd ar 19 a 20 Mawrth 2012 yn cwmpasu nifer o feysydd allweddol. Ein hargraff gyffredinol o'r gwasanaeth y mae Tŷ Hafan yn ei gynnig yw bod tîm staff sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth briodol yn darparu gofal lliniarol, diwedd oes a gofal yn dilyn profedigaeth mewn ffordd ymroddedig a gofalgarn mewn amgylchedd deniadol, tawel a diogel sydd wedi ei adeiladu i'w ddiben. Gwnaed un gofyniad rheoliadol a nifer o argymhellion arfer da, ac maent wedi eu nodi yn adran 4 yr adroddiad hwn.

4. Gofynion, Argymhellion a'r Camau Nesaf

Gofynion

4.1 Mae'r gofynion a nodir isod yn mynd i'r afael ag unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a nodwyd naill ai o ganlyniad i'r arolygiad neu yn sgil gwybodaeth arall a dderbyniwyd gan y darparwr neu am y darparwr. Yr 'unigolyn cofrestredig' sydd, yn ôl y ddeddfwriaeth, yn gyfrifol am gyflawni'r gofynion hyn. Mae hyn yn cynnwys darparwr cofrestredig a/neu reolwr cofrestredig y sefydliad neu'r asiantaeth. Rhoddwyd adborth ar y pryd ar y materion a nodwyd yn ystod yr ymweliad, ond mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig ddarparu 'cynllun gweithredu' sy'n cadarnhau sut y mae wedi, neu os nad ydyw, sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r camau gweithredu gofynnol. Os bydd angen, byddwn yn cymryd camau gorfodi i sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau.

Safon Ofynnol Genedlaethol	Rheoliad	Canfyddiadau (rhif y paragraff)	Gofyniad	Amserlen
12	26 (2) (a) a (b)	2.3	Mae'r rhaid i'r unigolyn cofrestredig roi sylw i'r holl faterion amgylcheddol a nodir yn yr adroddiad hwn, yn benodol: - Rhaid gosod y cortyn llenni yn sownd yn y wal neu ei symud oddi yno. - Rhaid diogelu holl geblau rhydd offer trydanol er mwyn lleihau'r risg o faglu a chwympo.	Mae'n ofynnol cael cynllun gweithredu erbyn 30 Tachwedd 2012 sy'n dangos sut y bydd yr holl feysydd hyn yn derbyn sylw.

Safon Ofynnol Genedlaethol	Rheoliad	Canfyddiadau (rhif y paragraff)	Gofyniad	Amserlen
			• Rhaid gosod cebl y taflunydd yn sownd yn y wal gan ei fod yn rhydd. • Rhaid gostwng y ffitiadau wal ar gyfer y teclyn codi ar drac oherwydd bod rhai aelodau o staff yn ei chael hi'n anodd cyrraedd ei safle presennol, gan achosi anawsterau o ran codi a chario. • Rhaid gosod y deunydd diogelu a'r darn mecanyddol diogelu cywir ar ddolenni'r teclyn codi. • Rhaid cadw'r holl gypyrddau sy'n cynnwys deunydd glanhau, golchdrwythau ayb. dan glo pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. • Rhaid gosod plwg yn sinc yr ystafell ymolchi, a gosod gwarchodydd drws	

Safon Ofynnol Genedlaethol	Rheoliad	Canfyddiadau (rhif y paragraff)	Gofyniad	Amserlen
			newydd yn ystafell ymolchi 2. Mae angen tacluso'r ystafell driniaeth a'i gwneud yn lanach yn gyffredinol.	

Argymhellion

4.2 Gallai'r argymhellion fod yn ymwneud ag agweddau ar y safonau neu ganllawiau cenedlaethol. Dylai'r unigolion cofrestredig eu hystyried, ond nid ydynt yn cael eu gorfodi'n gyffredinol. Mae'n ofynnol i'r unigolion cofrestredig ddarparu cynllun gweithredu ynglŷn â'r argymhellion hyn erbyn 30 Tachwedd 2012.

Safon	Argymhelliad
13	Dylai'r holl arwyddion gynnwys enwau'r awduron, cyfeiriadau pan fo'n briodol, a dyddiadau adolygu, a dylid eu lamineiddio neu eu cotio'n arbennig i gydymffurfio â rheoliadau rheoli heintiau.
14	Dylid ystyried cael oergell benodol ar gyfer cadw llaeth y fron.
1	Dylid rhoi ystyriaeth i'r arweinydd chwarae ddatblygu cysylltiadau ffurfiol â'r staff chwarae ysbyty aciwt.
15	Dylid rhoi ystyriaeth i'r staff yn yr hosbis ddod yn nyrsys rhagnodi.
8	Dylid adolygu'r llwyth mawr o ddogfennau gofal er mwyn arbed dyblygu a symleiddio'r broses.
5 a 23	Dylai'r darparwr cofrestredig gyflwyno gwybodaeth am y gwasanaeth eirioli sydd ar gael ar gyfer yr hosbis.
21	Dylid ystyried darparu mwy o gymorth ar gyfer tadau.

Y Camau Nesaf

4.3 Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig anfon cynllun gweithredu i AGIC sy'n mynd i'r afael â'r gofynion rheoliadol a'r argymhellion arfer da a nodwyd yn yr adroddiad hwn o fewn yr amserlenni a bennir uchod. Cydnabyddir bod y darparwr cofrestredig eisoes wedi dechrau mynd i'r afael â rhai o'r meysydd yn dilyn ein sesiwn adborth.